**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
SeneddCLA@assembly.wales

23 Awst 2019

Annwyl Mick

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyron dyddiedig 11 a 30 Gorffennaf ynghylch memoranda cydsyniad offeryn statudol (Memoranda) a safbwynt y Pwyllgor ynghylch pryd y dylid cyflwyno cynigion cydsyniad offeryn statudol (Cynigion). Diolch am rannu eich gohebiaeth â'r Llywydd ar y mater hwn gyda mi.

Yn gyntaf rwyf am sicrhau'r Pwyllgor, er nad yw'r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion gyflwyno Cynigion mewn perthynas â Memoranda o'r fath, nad ydym wedi newid ein dull gweithredu cyffredinol: dan amgylchiadau arferol, ein bwriad o hyd yw cyflwyno Cynigion ar gyfer Memoranda. Fodd bynnag, mewn perthynas ag offerynnau statudol yn ymwneud â Brexit, rhaid ystyried materion ymarferol yr amserlen.

Fel y gŵyr y Pwyllgor yn iawn, cyd-destun ein dull gweithredu dros y 9-12 mis diwethaf yw'r rhaglen o gywiriadau i'r llyfr statud sy'n angenrheidiol i sicrhau y bydd yn parhau i weithio ar ôl i ni ymadael â'r UE. Mae hon yn dasg na welwyd ei thebyg o'r blaen: roedd swm yr offerynnau statudol cywiro oedd yn dod i law, a'r amserlen gyfyng ar eu cyfer, yn golygu nad oedd yn ymarferol dilyn ein trefn arferol ar gyfer ymdrin â Memoranda. Datblygwyd y cyfaddawd presennol er mwyn sicrhau y byddai Memoranda yn ymwneud â Brexit yn cael sylw amserol, gan sicrhau ar yr un pryd y byddent yn cael eu dwyn i sylw'r Cynulliad. Wrth benderfynu peidio cyflwyno Memoranda ein hunain mewn cysylltiad â'r darnau hyn o is-ddeddfwriaeth, roeddem yn ymwybodol iawn y gallai unrhyw Aelod a oedd yn credu y dylai'r Cynulliad drafod Memorandwm penodol gyflwyno Cynnig ei hun.

Fodd bynnag, mae'r rhaglen i gywiro'r llyfr statud wedi'i chwblhau i raddau helaeth, ac nid ydym yn rhagweld y bydd yn arwain at nifer o Femoranda pellach (os o gwbl). Rwyf felly'n cytuno ei bod yn bryd edrych ar y mater hwn eto, ac rwy'n croesawu'r ffaith y bydd yr ymchwiliad a gyhoeddwyd gennych yn ddiweddar yn gwneud hynny.

Fel rhan o'i waith, rwy'n credu y gallai'r Pwyllgor ystyried materion a gododd o ran amseriad ymarferol, sy'n cyfyngu ar allu'r Cynulliad i graffu ar offerynnau statudol y DU sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd datganoledig. Mae'r mater hwn yn codi yn

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

bennaf pan fo offerynnau statudol yn cael eu gwneud dan y weithdrefn negyddol, gan eu bod yn cael eu gwneud cyn eu gosod, ac nad yw'r rheol 21 diwrnod ar gyfer dod i rym yn ofyniad caeth. Byddai'n ddefnyddiol cael barn y Pwyllgor am y mater hwn. Byddai hefyd yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor ystyried – mewn sefyllfa lle bo'r Cynulliad wedi trafod a gwrthod rhoi cydsyniad i offeryn statudol y DU a wnaed dan y weithdrefn negyddol – sut y byddai'n disgwyl i'r Senedd ymateb.

Rwy'n deall y bydd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit yn bresennol yng nghyfarfod eich Pwyllgor ar 16 Medi, i roi rhagor o dystiolaeth mewn perthynas â'ch ymchwiliad; bydd hyn yn gyfle i edrych yn fanylach ar y materion yma. Gallaf eich sicrhau y byddwn yn ystyried yn ofalus unrhyw argymhellion y bydd y Pwyllgor yn eu gwneud ar y mater hwn.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, a'r Llywydd.

Yn gywir



**MARK DRAKEFORD**